


# ADRODDIAD PROSIECT CWPANAU

2020

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

# Y Prif Ganlyniadau

Nod y prosiect hwn yw lleihau gwastraff cwpanau a rhoi hwb i ailgylchu ‘wrth fynd’ ar gampws Llandaf Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Yn ystod Rhan 1 o’r prosiect, cyflwynwyd biniau ailgylchu cwpanau y tu mewn i bedwar safle coffi’r campws i hwyluso ailgylchu. Yn ogystal, cyflwynwyd gwaith celf dwyieithog arbennig i annog pobl i newid i ddefnyddio cwpanau y gellir eu hailddefnyddio. (Mae gostyngiad 10% ar gael oddi ar ddiodydd poeth a werthir yn y tri safle a reolir gan y Brifysgol Metropolitan pan gyflwynir cwpan y gellir ei ailddefnyddio.) Ar gyfer Rhan 2 o’r prosiect, gosodwyd pedwar bin ailgylchu cwpanau ychwanegol ar y campws, a hynny mewn lleoliadau prysur y tu allan.

Crynhoir prif ganlyniadau’r prosiect isod.

| | Rhan 1 | Rhan 2 |
|---|---|---|
| Cwpanau y gellir eu hailddefnyddio a gyflwynir fel canran o’r cyfanswm o werthiannau | 12.9% | 14.9% |
| *- Cyfartaledd wythnosol* | *12.5%* | *15.6%* |
| Canran o gwpanau ‘untro’ a gafodd eu gwaredu yn y biniau ailgylchu cwpanau | 10.7% | 13.4% |
| *- Cyfartaledd wythnosol* | *11.4%* | *15.9%* |
| Canran o ddefnyddwyr y campws a oedd wedi cael gwared ar eu cwpanau mewn bin ailgylchu cwpanau | 17.1% | 32.4% |
| Canran o ddefnyddwyr y campws a oedd yn ymwybodol o un neu’r ddau o negeseuon y prosiect (ar ailddefnyddio ac ailgylchu) | 51.0% | 56.9% |
| Canran o ddefnyddwyr y campws a oedd yn ymwybodol o’r biniau ailgylchu cwpanau | 59.6% | 83.3% |

Mae’r ffigurau uchod ar ddefnydd cwpanau y gellir eu hailddefnyddio ac ar ailgylchu cwpanau ‘untro’ yn y Brifysgol Metropolitan yn cymharu’n ffafriol â data cenedlaethol.

Mae canlyniadau pwysig eraill yn cynnwys:

- Yn ystod Rhan 2 o’r prosiect, roedd lefel y cwpanau a gasglwyd yn y biniau ailgylchu cwpanau y tu mewn, yn sylweddol uwch na’r rhai a gasglwyd yn y biniau ailgylchu cwpanau y tu allan. O’r cyfanswm y cwpanau a gasglwyd, gwaredwyd 88.5% yn y biniau y tu mewn, o’i gymharu â dim ond 11.5% yn y biniau y tu allan.
- Yn ystod Rhannau 1 a 2 o’r prosiect, gwerthwyd un cwpan y gellir ei ailddefnyddio ar y campws am bob 97 o werthiannau.
- Cyflwynodd y brifysgol opsiwn ‘llestri’ gyda gostyngiad 10% oddi ar ddiodydd poeth ‘yfed i mewn’ a werthwyd yn safle’r Galeri yn ystod y flwyddyn. O hynny allan, roedd gwerthiannau llestri yn cyfri am 36.9% o holl werthiannau’r Galeri.
- Mae sylwadau defnyddwyr y campws yn cynnwys *‘Rwy’n berchen ar fwg Starbucks er mwyn lleihau gwastraff plastig. Rwy’n ei gadw yn y brifysgol fel nad ydw i’n ei anghofio gartref’* a bod neges ailddefnyddio’r prosiect *‘…yn fy helpu i gofio’* (y cwpan y gellir ei ailddefnyddio). Nid yn unig ydy’r defnyddwyr yn ceisio gwneud y ‘peth iawn’ ond mae’r sylwadau hefyd yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ymgyrch y brifysgol i hyrwyddo achosion amgylcheddol a chynaliadwyedd.

Am gopi o’r adroddiad, cysylltwch â leq@keepwalestidy.cymru

**Jones, H. Ebrill 2020.**

Casglwyd y data gan Roberts, R. (Prifysgol Metropolitan Caerdydd) a Jones, H. (Cadwch Gymru’n Daclus).

**© Cadwch Gymru’n Daclus 2020**
Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o’r adroddiad hwn mewn unrhyw ffurf o gwbl heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyhoeddwr. Rhoddir caniatâd fel arfer i sefydliadau elusennol a dielw eraill.

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13